



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board

## Gwybodaeth i Gleifion

### Eich Canllaw i Fwydo GEC

#### Uned Endosgopi

#### Nod y daflen hon

Mae eich tîm meddygol wedi eich atgyfeirio i drafod cael tiwb Gastrostomi Endosgopig drwy'r Croen (GEC). Dyluniwyd y daflen hon i'ch helpu i benderfynu a ydych am gael y tiwb bwydo hwn. Gallwch hefyd siarad â'ch Meddyg Ysbyty, Meddyg Teulu, Nyrs Arbenigol, Uwch Ymarferydd Nyrsio, Dietegydd neu Therapydd Lleferydd ac Iaith i gael rhagor o wybodaeth a chyngor.

#### DIFFINIADAU

- **C** = drwy'r croen
- **Endosgopig** = y defnydd o offeryn a elwir yn endosgop (camera) i archwilio'r stumog
- **Gastrostomi** = agoriad yn y stumog

#### Beth yw tiwb GEC?

Mae tiwb GEC yn diwb bwydo sy'n pasio drwy wal yr abdomen i mewn i'r stumog er mwyn gallu rhoi bwyd, dŵr a meddyginiaeth heb lyncu.

Mae'r tiwb GEC yn cael ei osod drwy lawdriniaeth fach yn yr adran endosgopi. Os ydych chi'n glaf allanol byddwch yn cael eich derbyn i'r ysbyty am lawdriniaeth a gallwch ddisgwyl bod yno am o leiaf 3 diwrnod wedyn.

#### Pam fod angen tiwb GEC?

Mae tiwbiau GEC yn cael eu defnyddio ar gyfer pobl sy'n cael problemau llyncu neu sy'n methu â llyncu digon o hylif i fodloni eu gofynion maethol.

#### Pa mor hir fydd y tiwb yn para? Pa mor hir fydd angen y tiwb arnaf i?

Gall tiwb GEC bara am flynyddoedd os y gofelir amdano'n dda; gallai fod angen gosod un newydd os oes angen un am amser hir. Bydd angen y tiwb am gyfnodau gwahanol ar bobl wahanol. Efallai mai dim ond tan eich bod yn gallu bwyta/yfed mwy neu eich bod yn llyncu'n well y bydd ei angen arnoch. Gallai fod angen tiwb GEC ar bobl eraill am weddill eu bywydau. Dylid trafod hyn ymhellach gyda'ch meddygon.

#### Oes angen i mi roi'r gorau i gymryd fy meddyginiaeth teneuo'r gwaed cyn cael GEC?

Mae yna lawer o feddyginiaethau teneuo'r gwaed gwahanol (a elwir hefyd yn feddyginiaethau gwrth-blatennau neu wrthgeulo). Mae'r rhain yn effeithio ar sut mae eich gwaed yn ceulo ac, os ydych yn eu cymryd, mae'n bwysig i chi ddweud wrth eich meddyg neu nyrs wrth drafod y tiwb GEC. Mae hefyd yn bwysig i chi ddweud wrth eich meddyg neu nyrs am unrhyw feddyginiaeth arall. Mae triniaethau teneuo'r gwaed cyffredin yn cynnwys Asbirin, Clopidogrel, Warfarin, Dabigatran, Rivaroxaban, Apixaban a brechiadau fel Dalteparin, Enoxaparin a Fondaparinux. Mae fel arfer yn bosibl parhau i gymryd asbirin ond bydd angen rhoi'r gorau i feddyginiaethau teneuo'r gwaed eraill cyn y driniaeth. Mae pob meddyginiaeth yn wahanol, felly trafodir nifer y diwrnodau y bydd angen i chi beidio â chymryd y feddyginiaeth hon gyda chi, ond gall fod hyd at 7 diwrnod cyn y driniaeth.

### **Sut mae paratoi ar gyfer tiwb GEC?**

Bydd angen i chi fod yn glaf mewnol, a bydd angen i chi wisgo gŵn ysbyty. Bydd profion gwaed wedi cael eu gwirio ymlaen llaw i sicrhau bod eich gwaed yn ceulo'n normal ac, os ydych chi'n cael triniaeth teneuo'r gwaed, rhoddir y gorau iddi fel rheol cyn y driniaeth.


Os ydych chi'n bwyta neu yfed drwy'r geg o hyd, ni ddylech fwyta am o leiaf chwe awr ac ni ddylech yfed am o leiaf dair awr cyn y driniaeth. Os oes gennych diwb bwydo yn eich trwyn, dylai'r bwyd gael ei atal chwe awr cyn y driniaeth. Byddwch yn cael gwrthfotigau cyn y driniaeth, a gallai fod angen hylifau ar ffurf drip arnoch tra eich bod yn aros. Os oes gennych unrhyw alergeddau, rhaid i chi roi gwybod i'ch meddyg. Cewch eich cludo ar droli i'r adran endosgopi ar gyfer eich triniaeth.


### **Sut mae'r tiwb GEC yn cael ei osod?**

Cewch eich tawelyddu cyn i'r tiwb GEC gael ei osod, ac mae'r driniaeth yn cymryd tua 20 munud. Defnyddir tiwb hyblyg o'r enw **gastrosgop** i osod y tiwb. Mae'r **gastrosgop** yn cael ei basio drwy'r geg, y gwddw ac i mewn i'r stumog. Chwistrellir anesthetig lleol i mewn i'ch croen, a chaiff agoriad bach ei wneud i osod y tiwb GEC ynddo.

Ar ôl y driniaeth hon, byddwch yn siŵr o deimlo'n gysglyd am rai oriau. Efallai y bydd gennych lwnc tost, a gallech deimlo rhywfaint o anghysur o gwmpas ardal eich GEC.

### **Diagramau o diwb GEC**





## Risgiau'r driniaeth

Mae gosod tiwb GEC yn driniaeth reolaidd â risg isel o gymhlethdodau. Fel gydag unrhyw driniaeth, rhaid pwysu a mesur y risgiau yn erbyn y manteision, a gwneir pob ymdrech i leihau'r risg o gymhlethdodau.

- Nid yw llawer o gleifion y mae angen tiwb GEC arnynt yn gallu llyncu'n iawn, a gallai eu cyhyrau fod wedi nychu a/neu gallai fod ganddynt oedi o ran eu hatgyrch pesychu. O ganlyniad i'r problemau hyn, mae risg fechan o anawsterau anadlu a niwmonia os bydd bwyd neu secretiadau yn mynd i mewn i'r bibell wynt. Bydd nyrs yn cael gwared ar secretiadau o'ch ceg yn ystod y driniaeth i leihau'r risg.
- Mae rhai risgiau yn gysylltiedig â'r cyffuriau tawelu hefyd, a allai effeithio ar eich anadlu. Rhaid i'r Endosgopydd ystyried y ddos o gyffuriau tawelu ar gyfer pob claf. Caiff ocsigen eich corff ei fonitro drwy gydol y driniaeth, a chewch ocsigen ychwanegol drwy'r trwyn.
- Wrth osod y tiwb bwydo mae yna risg fechan o waedu mewnol (gwaedlif) neu o dyllu'r coluddyn. Fodd bynnag, cewch eich monitro'n agos yn ystod ac ar ôl y driniaeth.
- Yn anaml iawn, os bydd y tiwb GEC yn symud neu os nad yw wedi cael ei gysylltu'n iawn, mae yna risg fechan o beritonitis (llid yn leinin wal yr abdomen) yn yr ychydig ddiwrnodau ar ôl y driniaeth.

## Sut mae'r tiwb yn cael ei ddefnyddio i fwydo?

Ar ôl cael ei osod, ni fydd y tiwb GEC yn cael ei ddefnyddio am o leiaf 4 awr. Ar ôl y cyfnod hwn, rhoddir dŵr drwy'r GEC gan ddefnyddio pwmp am 4 awr, wedyn bydd y bwydo'n dechrau.

Bydd y Dietegydd yn trafod yr opsiynau bwydo gyda chi. Byddwch yn cael porthiant hylifol a baratowyd yn arbennig sy'n cynnwys yr holl faetholion sydd eu hangen arnoch mewn diwrnod. Gall y porthiant hylifol gael ei roi drwy osod chwistrell ar y tiwb neu drwy ddefnyddio pwmp bwydo electronig. Pan fyddwch gartref, bydd eich Meddyg Teulu'n rhoi presgripsiwn i chi ar gyfer y porthiant hwn. Byddwch chi (neu eich perthnasau) yn cael eich hyfforddi i ddefnyddio pa bynnag ddull sydd orau i chi.

Ni all bwydydd normal gael eu pasio drwy'r tiwb. Ni ddylid ond ei ddefnyddio ar gyfer bwyd hylifol a ragnodir, dŵr a meddyginiaeth addas.

### **Gofalu am eich tiwb GEC**

Efallai y caiff gorchudd ei roi o gwmpas ardal y GEC ar ôl iddo gael ei osod - gellir ei dynnu ar ôl diwrnod neu ddau. Ar ôl hyn, bydd angen i ardal y GEC gael ei glanhau bob dydd. Ar ôl pythefnos bydd angen rhyddhau sefydlogydd allanol siafft y tiwb GEC, er mwyn gallu gwthio'r siafft i mewn i'r stumog a'i throï bob dydd. Mae angen gwneud hyn i atal y plwg mewnol rhag cael ei drapio yn y feinwe amgylchynol. Ni fydd angen gorchudd pellach fel rheol. Bydd hefyd angen i'r tiwb gael ei fflysio gyda dŵr bob dydd i'w atal rhag blocio.

Byddwch chi (neu eich perthnasau/gofalwyr) yn cael hyfforddiant a chymorth priodol i'ch galluogi i ofalu am y tiwb.

### **Pa offer bwydo sydd ei angen?**

Mae hyn yn dibynnu ar sut rhoddir y porthiant: efallai y bydd angen pwmp bwydo electronig a/neu chwistrellau arnoch.

Dangosir i chi (neu eich perthnasau/gofalwyr) sut i ddefnyddio'r offer cyn i chi adael yr ysbyty. Pan gewch eich rhyddhau, rhoddir cyflenwad o borthiant ac offer i chi. Bydd cyflenwadau pellach yn cael eu trefnu a chaiff hyn ei drafod cyn i chi gael eich rhyddhau.

### **A fyddaf yn gallu bwyta ac yfed?**

Bydd hyn yn dibynnu ar eich cyflwr meddygol a diogelwch eich llyncu. Bydd eich tîm meddygol yn rhoi cyngor priodol i chi. Os nad oes problemau gyda'ch llyncu, byddwch yn gallu bwyta o hyd ond efallai y bydd angen ystyried amseru'r bwydo GEC.

Os yw eich llyncu'n anniogel a'ch bod mewn risg o dagu, efallai yr awgrymir i chi beidio â bwyta nac yfed. Yn y sefyllfa hon, rhoddir eich holl ofynion maethol a'ch meddyginiaethau drwy'r GEC.

### **Sut bydd hyn yn effeithio ar fy mywyd?**

Fel gydag unrhyw beth newydd, bydd bwydo drwy diwb GEC yn effeithio ar eich ffordd o fyw a'ch arferion. Siaradwch â'ch Dietegydd am sut i daro cydbwysedd rhwng bwydo drwy diwb GEC a'ch ffordd o fyw.

### **Sut byddaf yn cymryd fy meddyginiaeth?**

Os ydych yn gallu bwyta ac yfed, efallai y gallwch barhau i lyncu eich meddyginiaeth. Os nad yw hyn yn bosibl, gall meddyginiaeth yn aml gael ei rhoi ar ffurf hylif i lawr y tiwb bwydo. Gall tiwb bwydo yn aml ei gwneud hi'n haws sicrhau eich bod yn cael eich holl feddyginiaeth.

Bydd eich meddyg a'ch fferylllydd yn adolygu eich meddyginiaeth cyn i chi adael yr ysbyty.

### **A fyddaf yn gallu cael bath neu gawod neu nofio?**

Am y bythefnos gyntaf, mae angen cymryd gofal arbennig i gadw'r tiwb GEC yn lân. Byddwch yn gallu cael cawod yn ystod yr amser hwn, ond ni ddylech gael bath. Ar ôl hynny, ar ôl i'r ardal o gwmpas y tiwb wella, gallwch gael bath neu fynd i nofio yn berffaith saff.

### **Pa broblemau allai godi?**

Bydd gofalu am eich tiwb yn gywir yn helpu i atal problemau. Gall problemau posibl gynnwys y tiwb yn blocio, haint ar y croen, gollwng o gwmpas y tiwb, neu'r tiwb yn symud. Byddwch yn cael hyfforddiant a gwybodaeth ysgrifenedig ar sut i ofalu am eich tiwb a sut i ddelio â phroblemau cyn i chi adael yr ysbyty. Gartref, byddwch yn cael cymorth gan Nyrs Arbenigol a Dietegydd.

Fel y nodir uchod, ar ôl i'r tiwb fod yn ei le am dros bythefnos, mae'n bwysig rhyddhau a throi siafft y tiwb i mewn i'r stumog bob dydd i atal y bymper mewnol rhag cael ei drapio yn y feinwe amgylchynol.

Ar ôl i chi adael yr ysbyty, mae help ar gael bob amser. Os nad oes angen y tiwb GEC mwyach, gellir ei dynnu, ond oherwydd dyluniad rhai GECau dylai hyn gael ei wneud drwy endosgopi arall fel rheol.

Ysgrifennwyd y daflen wybodaeth hon i gleifion gan:

Dr Karen Yearsley, Gastroenterolegydd Ymgynghorol  
Miss Freya Kendall, Dietegydd yr Ysbyty  
Miss Judith Davies, Dietegydd Cymunedol  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

**“Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/  
This document is available in English”.**